SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Felindre gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

© Hawlfraint y Goron 2016 WG29477 ISBN digidol 978 1 4734 7224 2

## Cynnwys


1. Diben....................2
2. Trosolwg....................2
3. Themâu Allweddol....................3
4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith....................4
5. Llywodraethu ac Atebolrwydd....................4
6. Ymgysylltu....................5
7. Gwaith Arolygu....................6

## 1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben ni yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hybu gwelliannau.

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd
- Bod dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth.

## 2. Trosolwg

Cynhaliodd AGIC ddau arolygiad ar gyfer lleoliadau Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- un arolygiad yn ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- un arolygiad dilynol o ysbyty.

## 3. Themâu Allweddol

Darperir trosolwg o'r arolygiadau a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ganser Felindre isod.

Cynhaliodd AGIC arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o gydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer radiotherapi yn adran radiotherapi Canolfan Ganser Felindre ar 10 ac 11 Mawrth 2016.Yr amcan oedd cynnal asesiad i roi sicrwydd bod yr adran yn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Mae AGIC yn gwneud hyn trwy adolygu'r systemau a'r arferion yn ogystal â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Cafodd yr arolygiad dderbyniad da gan y rheolwyr a'r staff yng Nghanolfan Ganser Felindre, a chwblhawyd a derbyniwyd yr holl ddogfennau o fewn yr amserlenni a bennwyd. Gwnaethant hefyd wahodd cynrychiolwyr o'r ddwy adran radiotherapi arall yng Nghymru, er mwyn dysgu o'r profiad. Fodd bynnag, roedd yn drueni nodi bod rhai argymhellion a nodwyd yn adroddiad 2009 nad oedd wedi'u cwblhau o hyd.

Gwelwyd dwy enghraifft o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau y tro hwn: y cyntaf oedd y diffyg rhestr cyfarpar a'r ail oedd yr angen i roi meini prawf atgyfeirio ar waith; ni welsom dystiolaeth o'r rhain ar adeg yr ymweliad. Gwnaeth yr ymddiriedolaeth fynegi ei fod yn ymroddedig i gwblhau'r tasgau hyn fel mater brys. Roedd y tîm arolygu'n fodlon ac yn hyderus nad oedd unrhyw bryderon ynghylch arferion mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ac roeddent yn fodlon nad oedd unrhyw faterion diogelwch ar y dyddiau y gwnaethant ymweld. Fodd bynnag, canfuwyd rhai materion allweddol oedd angen sylw.

Gwnaeth AGIC ddefnyddio'r ymweliad hwnnw hefyd i wneud arolygiad dilynol dirybudd byr yn ymwneud â'r hyn a wnaeth AGIC ganfod yn ystod arolygiad urddas a gofal hanfodol mis Chwefror 2014 yn Uned Cymorth Gweithredol Canolfan Ganser Felindre. Yn ystod yr ymweliad yn dilyn yr arolygiad urddas a gofal hanfodol, rhoddwyd sicrwydd i AGIC bod camau wedi'u cymryd i roi sylw i'r problemau a fynegwyd yn flaenorol. Anfonwyd llythyr at Felindre yn nodi'r canfyddiadau.

## 4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

**Camau Dilynol**

Gwnaeth AGIC gyflwyno adroddiad arolygu ynglŷn â'n canfyddiadau yn dilyn ein harolygiad yn ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).Pan wnaethom ganfod bod angen gwneud gwelliannau, gwnaethom nodi hefyd bod angen i'r ymddiriedolaeth ddarparu cynllun gwella ar ein cyfer ynglŷn â'r modd roeddent am wneud y gwelliannau.

Gwnaethom gyflwyno llythyr i'r ymddiriedolaeth yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn yr arolygiad dilynol o ysbyty.

Roedd y cynllun gan yr ymddiriedolaeth yn fanwl ac yn drylwyr. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a gofynnwyd am fwy o wybodaeth a sicrwydd pan oedd eu hangen arnynt. O ganlyniad, rhoddodd yr ymatebion ddigon o sicrwydd inni fod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael sylw gan y corff a arolygwyd.

## 5. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.[1] Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu.

Gweledigaeth Ymddiriedolaeth GIG Felindre yw y byddant yn cael eu cydnabod yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel sefydliad sy'n adnabyddus am eu rhagoriaeth mewn gofal i gleifion a rhoddwyr, addysg ac ymchwil.

[1] Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u sefyllfa o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu haeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer 2014-15 yn nodi mai effeithiol oedd arfarniad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu. Yn benodol, roedd yn nodi'r canlynol:

Yn rhan o'r thema ‘Pennu'r Cyfeiriad’, roedd yr ymddiriedolaeth o'r farn ei fod wedi dangos aeddfedrwydd Lefel 5 - gallu dangos arloesedd ac arferion da parhaus sy'n bodoli yn y sefydliad/busnes drwyddo draw, ac y gall pobl eraill ddysgu ohonynt. Dan y themâu 'Galluogi Cyflenwi' a 'Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth', roedd y sefydliad o'r farn eu bod wedi dangos aeddfedrwydd Lefel 4 - mae gan yr ymddiriedolaeth gynlluniau a phrosesau sydd wedi'u datblygu'n dda a gall ddangos cynnydd parhaus yn y sefydliad/busnes drwyddo draw. Nid oedd y sgoriau hyn wedi newid ers 2013-14.

Yn yr hunanasesiad, gwnaeth yr ymddiriedolaeth dynnu sylw at y ffaith ei bod yn un o bedair ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd lleol oedd wedi cael cymeradwyaeth am eu cynlluniau tymor canolig integredig gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn cydnabod bod angen atgyfnerthu’r gefnogaeth a roddwyd i bwyllgorau'r bwrdd er mwyn sicrhau bod busnes a ddirprwywyd i’r bwrdd yn cael ei reoli'n effeithiol, ac adolygu aelodaeth aelodau annibynnol ar bwyllgorau er mwyn sicrhau cynllunio olyniaeth, gwybodaeth a ‘throsi’ sgiliau. Gwnaeth yr ymddiriedolaeth nodi hefyd bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r gofrestr risgiau yn 2014-15 o ran y prosesau yr oedd y bwrdd yn eu dilyn i adrodd a monitro risgiau, a chychwynnwyd adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Risgiau. Gwnaeth amlygu bod ganddi system rheoli perfformiad effeithiol, sy'n ei chynorthwyo o ran monitro a rheoli perfformiad er mwyn cyflawni ei hamcanion strategol, a'i bod yn ystyried atgyfnerthu ei threfniadau rheoli perfformiad ymhellach yn 2015-16 yn rhan o waith gwella parhaus.

Yn ogystal, gorffennodd Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 ar gyfer Felindre trwy nodi: "Mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd y bwrdd yn parhau i esblygu a gwnaed cynnydd da o ran atgyfnerthu'r dulliau a ddefnyddiwyd i reoli risg a rheoli perfformiad."

## 6. Ymgysylltu

Cyflwynodd y rheolwr perthynas adroddiad blynyddol AGIC i Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod eu cyfarfod bwrdd ar 4 Mehefin 2015.

Gwnaeth y rheolwr perthynas fynychu cyfarfod ansawdd a diogelwch Felindre ar 10 Rhagfyr 2015 hefyd.

Ar bob achlysur, mae'r ymddiriedolaeth wedi ymateb i geisiadau am fynychu cyfarfodydd ac am wahanol ddogfennau yn gadarnhaol ac yn ddi-oed. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn rhan o'r cyswllt parhaus â'r ymddiriedolaeth.

Gwnaeth rheolwr perthynas AGIC ac arweinydd archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Felindre gyfarfod a gohebu yn ystod y flwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol oedd gan y ddau sefydliad. Gwnaeth y rheolwr perthynas gyfarfod hefyd â phrif swyddog y cyngor iechyd cymuned ar gyfer Caerdydd a'r Fro a Felindre, a gwnaethant ohebu yn ystod y flwyddyn er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol oedd gan y ddau sefydliad.

## 7. Gwaith Arolygu

**Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

**Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)**

| | |
|---|---|
| 1. Ymddiriedolaeth GIG Felindre – Canolfan Ganser Felindre, Adran Radiotherapi | 10 Mawrth 2016 |

**Ymweliad Dilynol o Ysbyty**

| | |
|---|---|
| 2. Ymddiriedolaeth GIG Felindre – Canolfan Ganser Felindre, Uned Cymorth Gweithredol | 10 Mawrth 2016 |